CCW

The voice for water consumers
Llais defnyddwyr dŵr

# Gwybodaeth i ymgeiswyr



CCW

The voice for water consumers
Llais defnyddwyr dŵr

# Amdanom ni

## Mae CCW yn helpu miloedd o gwsmeriaid gyda chwynion nad ydynt wedi gallu eu datrys yn uniongyrchol gyda'u cwmni dŵr.

Hefyd, rydyn ni'n cynnal gwaith ymchwil ar amrywiaeth eang o faterion dŵr ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau i ddylanwadu ar gyfeiriad y diwydiant yn y dyfodol, er budd defnyddwyr. Mae ein Pwyllgorau yng Nghymru a Lloegr a'n tîm o Eiriolwyr Defnyddwyr Lleol yn cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys buddiannau defnyddwyr, y Llywodraeth, rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr.

## Ein hanes

- Corff statudol yng Nghymru a chorff cyhoeddus anadrannol yn Lloegr, a noddir gan Lywodraeth Cymru a Defra yn y drefn honno.
- Fe'i sefydlwyd ar 1 Hydref 2005 o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003, i gynrychioli defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.
- Disodlodd bwyllgorau WaterVoice, a oedd yn rhan o reoleiddiwr economaidd y diwydiant, Ofwat, i ddod yn gorff defnyddwyr statudol annibynnol.
- Disodlodd bwyllgorau WaterVoice, a oedd yn rhan o reoleiddiwr economaidd y diwydiant, Ofwat, i ddod yn gorff defnyddwyr statudol annibynnol.

## Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Wrth inni edrych ymlaen at y blynyddoedd nesaf, mae gennym weledigaeth glir o'r hyn yr hoffem ei gyflawni ar ran defnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr. Cefnogir y genhadaeth hon gan uchelgeisiau strategol a'i chyflawni drwy gyfres o ymgyrchoedd allweddol.

Cefnogir y genhadaeth hon gan uchelgeisiau strategol a'i chyflawni drwy gyfres o ymgyrchoedd allweddol. Ar ben hynny, mae cydweithwyr ar draws CCW yn coleddu cyfres o werthoedd corfforaethol sy'n ymgorffori ein ffordd o wneud busnes.
Drwy ganolbwyntio ar ddatblygiad personol, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym am sicrhau bod CCW yn lle hwyliog ac egnïol i weithio lle mae pob cydweithiwr yn teimlo bod ei gyfraniad unigol yn gwneud gwahaniaeth.

### Ein cenhadaeth

Sicrhau bod pobl yn wybodus, yn cael eu trin yn deg, gyda hyder yn eu gwasanaethau dŵr.

### Ein diben

Rydyn ni'n teimlo'n angerddol dros hyrwyddo buddiannau gorau pawb sy'n defnyddio dŵr, nawr ac yn y dyfodol.

### Ein gweledigaeth

Sector dŵr sy'n gwrando ar bobl ac yn darparu gwasanaethau eithriadol a chynaliadwy sy'n hygyrch i bawb.

## Ein hamcanion hirdymor

### Fforddiadwyedd a bod yn agored i niwed

### Pobl a'r amgylchedd

### Taith cwynion cwsmeriaid

### Cwsmeria id busnes

# Gwerthoedd CCW




## Egni Cadarnhaol

Rydyn ni'n egnïol a brwdfrydig, gydag agwedd 'gallu gwneud' gref. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i broblemau, gan gymell ein gilydd i wneud ein gorau glas hyd yn oed pan fydd pethau'n anodd.

## Parch at bawb

Mae cynwysoldeb wrth wraidd bywyd yn CCW. Rydyn ni'n parchu gwahaniaethau ein gilydd, gan ddathlu ein natur unigryw a gwerthfawrogi cyfraniad pob unigolyn. Rydyn ni'n rhoi adborth i'n gilydd sy'n ddefnyddiol ac yn adeiladol, ac yn osgoi gweld bai.

## Ysbryd arloesol

Rydyn ni'n annog dewrder a meddwl yn greadigol, gan geisio gwella bob amser. Rydyn ni'n barod bob amser i roi cynnig ar bethau newydd, heb fod ofn dysgu o'n camgymeriadau. Rydyn ni'n cydweithio ac yn croesawu pawb i rannu syniadau newydd.

## Cyflawni ein haddewidion

Rydyn ni'n dangos ymrwymiad: i ddefnyddwyr, i'n nodau, ac i'n gilydd. Rydyn ni'n derbyn cyfrifoldeb ac atebolrwydd, gan ymddwyn yn onest a rhoi gwybodaeth i'n gilydd bob cam o'r ffordd. Rydyn ni'n ceisio gwneud yr hyn rydyn ni'n ei ddweud bob amser.

## Gweithio gyda'n gilydd fel un

Rydyn ni'n 'un tîm', yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nod clir. Rydyn ni'n cefnogi ac yn grymuso ein gilydd i ddysgu a datblygu, gan rannu ein gwybodaeth a dathlu llwyddiant ein gilydd.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn CCW, rydyn ni'n diffinio ein hamrywiaeth fel bod â phobl ag amrywiaeth eang o nodweddion, cefndiroedd a phrofiadau.

Mae bod yn gynhwysol yn golygu ein bod ni i gyd yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu ein syniadau a'n safbwyntiau gan fod ein gwahaniaethau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Mae pob aelod o'r sefydliad yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei dderbyn a'i werthfawrogi gyda chyfle cyfartal i dyfu a llwyddo yn y gwaith.

# Crynodeb o Amodau a Thelerau

## Sut i wneud caisow

Rhaid i'ch cais gynnwys:
CV sy'n cynnwys addysg, cymwysterau proffesiynol a hanes cyflogaeth llawn, gan roi manylion am gyflawniadau allweddol sy'n berthnasol i'r sgiliau a'r profiad a amlinellir ym manyleb y person a'r swydd-ddisgrifiad.

Anfonwch y CV a'ch Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ddewisol drwy e-bostio ccw@greenbeanrpo.com.

## Gofynion Cenedligrw

Mae'r swydd hon yn agored yn fras i'r grwpiau canlynol. Gwladolion y DU, gwladolion o wledydd y Gymanwlad sydd â'r hawl i weithio yn y DU gwladolion Gweriniaeth Iwerddon, gwladolion o'r UE, yr AEE neu'r Swistir sydd â statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau Cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) gwladolion perthnasol o'r UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil, gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi adeiladu'r hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil, rhai aelodau o deuluoedd gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci. Rhaid i ymgeiswyr fod yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau i dderbyn gwaith yn y DU.

## Pensiwn

Cyn gynted ag y byddwch yn dechrau eich swydd newydd, rydych chi'n gymwys i ymuno â threfniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rydyn ni'n cynnig dewis o ddau fath o bensiwn.

Partneriaeth: Pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gennym ni yw hwn. Mae faint rydyn ni'n ei dalu yn seiliedig ar eich oedran. Rydyn ni'n talu hyn p'un a ydych chi'n dewis cyfrannu unrhyw beth ai peidio. Does dim rhaid i chi gyfrannu ond, os wnewch chi, byddwn ni'n cyfrannu'r un faint hefyd, hyd at 3% o'ch enillion pensiynadwy. Mae'r cyfraniadau'n ychwanegol at y cyfraniad sy'n gysylltiedig ag oedran a grybwyllir uchod.

Alpha: Mae Alpha yn darparu budd diffiniedig a gyfrifir ar sail Cyfartaledd Gyrfa. Mae cynllun pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn golygu eich bod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ganran o faint y gwnaethoch ei ennill bob blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

## Gofynion Iaith

Mae rolau sy'n wynebu cwsmeriaid yn CCW yn gofyn am y gallu i sgwrsio'n rhwydd ag aelodau o'r cyhoedd a rhoi cyngor mewn Cymraeg a/neu Saesneg llafar cywir lle bo angen.
Os yw hyn yn ofyniad hanfodol, caiff hyn ei brofi fel rhan o'r broses ddethol.

## Oriau gwaith

Bydd gofyn i chi weithio wythnos 5 diwrnod o 37 awr ac eithrio amser cinio. Mae'r adran yn gweithredu system oriau gweithio hyblyg (FWH), a weithir gan y rhan fwyaf o'r gweithwyr, ond gall amrywio ychydig. Mae nifer o delerau'n gysylltiedig ag oriau gweithio hyblyg. Dyma ragor o fanylion: Cyfnod gweithio – 07.00 o'r gloch tan 19.00 o'r gloch - amseroedd agor y swyddfa ar gyfer gweithio.

## Egwyl ginio hyblyg

Mae angen egwyl o 30 munud o leiaf.

## Gwyliau blynyddol

Eich lwfans gwyliau blynyddol fydd 25 diwrnod yn ogystal â 10½ diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint.

## Ymsefydlu

Bydd pob gweithiwr newydd yn cael rhaglen hyfforddiant ymsefydlu wedi'i pharatoi'n benodol ar ei gyfer gan Adnoddau Dynol a'i reolwr llinell.

## Stociau neu gyfranddaliadau

Oherwydd natur y wybodaeth y byddwch yn dod ar ei thraws a'r angen i fod yn gwbl annibynnol ar y diwydiant dŵr, cewch eich atal rhag dal na delio mewn stociau neu gyfranddaliadau unrhyw gwmni dŵr preifat nac unrhyw gwmni dŵr statudol presennol.

Mae hyn yn cynnwys cael unrhyw fuddiant ariannol gweithredol (cyfranddaliadau neu warantau dyled gan gynnwys dyledebau, bondiau a giltiau, opsiynau, hawliau neu hawliau yn y dyfodol i gyfranddaliadau neu warantau eraill). Mae eich priod, eich partner ac unrhyw blant dibynnol yn cael eu hatal hefyd rhag bod ag unrhyw fuddiant ariannol gweithredol mewn cwmnïau o'r fath.

## Treuliau

Lle y bo'n briodol, byddwn yn ad-dalu costau teithio ar gyfradd tocyn rheilffordd safonol ar gyfer y daith, neu'r cyfraddau milltiroedd modur fel a ganlyn: Ceir: 25c y filltir (bydd angen nodi'r union filltiroedd, gan y byddwn yn gofyn i chi ei gofnodi ar y ffurflen gostau) Bydd angen prawf prynu ar gyfer unrhyw gostau trafnidiaeth gyhoeddus. Ni ellir ad-dalu treuliau teithio i'r DU. Byddwn yn ystyried costau llety dros nos. Rhaid i bob cais am gostau teithio gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr Adnoddau Dynol

Ni ellir ad-dalu treuliau teithio i'r DU. Byddwn yn ystyried costau llety dros nos. Rhaid i bob cais am gostau teithio gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr Adnoddau Dynol.

## Diogelu Data

Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2016), dim ond i lywio'r broses ddethol y bydd eich cais yn cael ei ddefnyddio, oni bai eich bod yn llwyddiannus, ac os felly bydd yn sail i'ch cofnod personol gyda ni ac yn cael ei gadw mewn ffeiliau papur ac electronig.

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw dan amodau cwbl ddiogel, gyda mynediad cyfyngedig. Rhoddir gwybodaeth ar ffurf ystadegol ar weithwyr presennol a blaenorol i gyrff allanol priodol lle mae diben dilys ar gyfer hyn.

Bydd data a ddarperir gennych ar y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yn cael ei gynnwys mewn cronfa ddata gyffredinol, at ddibenion monitro ystadegol yn unig i'n galluogi i fonitro effeithiolrwydd ein polisi cyfle cyfartal mewn cyflogaeth.

Ni fydd modd adnabod unigolion yn ôl enw.

Rydyn ni'n defnyddio sefydliad trydydd parti i sgrinio cefndir pob ymgeisydd sy'n llwyddiannus yn y cyfweliad ac sy'n cael cynnig cyflogaeth ffurfiol.

Rydyn ni'n gwneud hyn fel buddiant dilys i sicrhau addasrwydd ymgeiswyr. Rydyn ni'n rhannu enw, rhif ffôn, cyfeiriad ac e-bost yr ymgeisydd fel y darperir ar eich ffurflen gais.

Mae'r sefydliad trydydd parti yn cadw'r wybodaeth hon ac unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei rhannu wedyn â'r trydydd parti am gyfnod o chwe mis.

Drwy lofnodi a chyflwyno'r ffurflenni perthnasol, rydych chi'n rhoi caniatâd i brosesu eich data yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod.

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl.

Rydyn ni'n addo cyfweliad i unrhyw un sydd ag anabledd os yw'r cais yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd.

I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rhaid bod gennych anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

Gallai'r anabledd fod yn gorfforol, yn synhwyraidd neu'n feddyliol a bod disgwyl iddo bara am o leiaf 12 mis. Does dim rhaid eich bod wedi'ch cofrestru fel person anabl i wneud cais o dan y cynllun.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Ein nod yw bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal, sy'n bwriadu sicrhau cyfle cyfartal a thriniaeth deg i bawb, heb ystyried rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, a statws phriodol a phartneriaeth sifil.

Bydd pob cais yn cael triniaeth gyfartal a bydd eich dewis ar gyfer swydd yn seiliedig ar deilyngdod.

Rydyn ni wedi cyflwyno rhaglen o hyfforddiant amrywiaeth i bob gweithiwr er mwyn eu helpu i ddeall y cysyniad o amrywiaeth a sut mae'n ategu cyfle cyfartal.

Mae'n darparu dealltwriaeth o oblygiadau'r ddeddfwriaeth hefyd, ar gyfer gweithio gyda chydweithwyr a chwsmeriaid.

## Y Drefn Gwyno

Mae prosesau recriwtio CCW yn dilyn egwyddorion recriwtio'r gwasanaeth sifil sydd i'w gweld yn www.civilservicecommissioners.org.uk.

Os ydych chi'n teimlo nad yw eich cais wedi'i drin yn unol â'r egwyddorion hyn a'ch bod am wneud cwyn, cysylltwch â Gemma Domican, Head of Transformation, Strategy & People, CCW, 23 Stephenson St, Birmingham, B2 4BH.

Dolenni defnyddiol
www.ccwater.org.uk